

Yno bob amser

“Ond bydd yr Eiriolwr, yr Ysbryd Glân, a anfona’r Tad yn fy enw i, yn dysgu popeth ichwi, ac yn dwyn ar gof ichwi y cwbl a ddywedais i wrthyhych.” (adn. 26)

Beth am ddarlenn Ioan 14 25–26 ac yna myfyrio

Rydyn ni am barhau i fyfyrion ar rodd hyfryd a phennaf Iesu i ni – yr Ysbryd Glân. Gallwn yn hawdd ddechmygu mai cais cyntaf Iesu ar ôl dychwelyd i ogoniant y nefoedd oedd: “O Dad, mae’r sianel rhwng nef a daear ar agor rŵan – anfon yr Ysbryd Glân arnynt.”

Fel y dywedom ni ddoe, Eiriolwr arall fel Iesu ydy’r Ysbryd Glân. Fel mae Iesu yn Eiriolwr ar ein rhan yn y nefoedd gerbron gorsedd y Tad, felly mae’r Ysbryd Glân yn Eiriolwr ar y ddaear yn ystafell llys y byd. Dim ond yn enw neu ar awdurdod Iesu y bydd yr Ysbryd Glân yn gweithredu. Ei genhadaeth yw dadlau dros y gwirionedd fel ag y mae yn Iesu, a bydd yn gwneud hyn ynom a thrwom. Bydd yn egluro popeth roedd Iesu wedi’i ddweud ac a gafodd ei gamddeall gan y disgyblion yn y lle cyntaf. Dydy’r Ysbryd Glân ddim yn datguddio pethau ysgytwol na chlywyd mo’u tebyg o’r blaen – fel y mae rhai yn meddwl heddiw – ond yn hytrach mae’n dadlennu’r hyn a ddatguddiodd Iesu. Byddai llawer llai o gyfeiliorni yn yr Eglwys Gristnogol pe byddai athrawon a phregethwyr yn cofio ei fod yn gweithredu fel ein Heiriolwr o flaen byd amheugar, nid yn unig drwy roi teimladau tangnefeddus i ni, ond drwy ein dysgu yn y gwirionedd. Efydy ein Hathro hefyd. Ni fydd y treiddgarwch newydd mae’n ei roi, na’r pwerau newydd mae’n eu cyflwyno, na’r mentrau newydd mae’n eu rhoi ar waith, fyth yn cael eu gwahanu oddi wrth ewylllys gariadus y Tad nac yn dwyn anfri ar enw Iesu. Mae’r Drindod Sanctaidd yn gweithredu ar y cyd ar ein rhan.

Felly, wrth i chi geisio bod yn ddisgybl amlwg i Iesu, yn y cartref neu yn y gwaith, mewn gwendid neu o dan bwysau, gallwch fod yn sicr o holl gefnogaeth yr Ysbryd Glân. Fydd o byth yn eich gadael. Gallwch droi clust fyddar iddo ond mi fydd yn dal wrth eich ochr o hyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Deut. 34:9; Josua 1:16–18; Actau 2:29–39

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd yn nodweddu Josua fel olynydd i Moses?
2. Pwy dywalltodd yr Ysbryd, ac i bwy mae ef wedi ei addo?

Gweddi

O Dad, wrth i mi fyfyrion ar lle fyddwn i heddiw oni bai am yr Ysbryd Glân, f’Eiriolwr gwych, mae nghalon yn ymchwyddo mewn diolchgarwch a mawl am ei eiriolaeth gyson yn fy mywyd. Diolch i ti, annwyl Dad. Amen.